

Hawdd ei Ddarllen



Dewch Â'n Hawliau i Ni

Fersiwn byr o Fanifesto Pobl Anabl

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Anabledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddarllen o **Dewch Â'n Hawliau i Ni: Cyfarwyddyd ar gyfer Manifesto Pobl Anabl**.

Rhagfyr 2020

Cyflwyniad



Mae **Anabledd Cymru** yn fudiad sy'n gweithio i amddiffyn hawliau pobl anabl yng Nghymru.



Rydyn ni wedi bod yn siarad â phobl anabl ynglŷn â phethau y maen nhw'n ei chael yn anodd wrth fyw yng Nghymru.



Yn awr byddwn ni'n siarad â'r holl **bleidiau gwleidyddol** yng Nghymru ynglŷn â'r ffordd y gallan nhw wneud pethau'n well.



Mae **plaid wleidyddol** yn grŵp sy'n cytuno sut i wneud bywyd yn well i bobl.

Maen nhw'n dod at ei gilydd ac yn cael ymgeisydd ar gyfer etholiad. Yng Nghymru mae'r pleidiau gwleidyddol yn cynnwys:

- Plaid Cymru
- Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP)
- Y Ceidwadwyr Cymreig
- Llafur Cymru
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



Y ddogfen hon yw ein **Cyfarwyddyd ar gyfer Maniffesto**.



Mae **Cyfarwyddyd ar gyfer Maniffesto** yn ddogfen fer sy'n dweud wrthyn ni am bethau yr hoffai mudiad weithio arnyn nhw.



Mae **Cyfarwyddyd ar gyfer Maniffesto** yn ein helpu i ddeall pa bethau sydd arnon ni angen gweithio arnyn nhw i gefnogi pobl anabl yng Nghymru.

Beth yw'r pethau y mae arnon ni angen gweithio arnyn nhw



Y mae chwech o bethau y mae arnon ni angen gweithio arnyn nhw i gefnogi hawliau pobl anabl.

Y pethau hyn yw:



1. Dilyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** yn ddogfen sy'n dweud wrthyn ni am hawliau pobl anabl.



Mae'n rhoi **fframwaith** ar gyfer gwneud yn siŵr bod cefnogaeth ar gyfer hawliau pobl.

Mae **fframwaith** yn gynllun ar gyfer pryd i wneud pethau a sut i wneud pethau.



2. Cefnogi pobl eraill i ddeall y pethau y mae pobl anabl yn eu cael yn anodd.



3. Cefnogi mwy o bobl anabl i fyw yn y ffordd y mae arnyn nhw eisiau.



4. Cael mwy o gefnogaeth gan iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl anabl.



5. Ei gwneud hi'n haws i fwy o bobl anabl gael gwaith. A rhoi gwell cefnogaeth iddyn nhw yn y gwaith.



6. Gwneud yn siŵr bod gan bobl anabl le i fyw sy'n cwrdd â'u hanghenion.



Rydyn ni'n meddwl y bydd y chwe pheth hwn yn helpu i wneud Cymru yn lle ble mae pobl anabl yn cael yr un cyfleoedd â phobl eraill.

Geiriau anodd

Cyfarwyddyd ar gyfer Maniffesto

Mae Cyfarwyddyd ar gyfer Maniffesto yn ddogfen fer sy'n dweud wrthyn ni am bethau yr hoffai mudiad weithio arnyn nhw.

Fframwaith

Cynllun ar gyfer pryd i wneud pethau a sut i wneud pethau.

Plaid wleidyddol

Mae plaid wleidyddol yn grŵp sy'n cytuno sut i wneud bywyd yn well i bobl.

Maen nhw'n dod at ei gilydd ac yn cael ymgeisydd ar gyfer etholiad. Yng Nghymru mae'r pleidiau gwleidyddol yn cynnwys:

- Plaid Cymru
- Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP)
- Y Ceidwadwyr Cymreig
- Llafur Cymru
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru